OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2016 Rhif 1066 (Cy. 255) (C. 75)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Deddf Tai (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 8) 2016

Gwnaed - - - - 1 Tachwedd 2016

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 145(3) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014(**1**).

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Tai (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 8) 2016.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Tai (Cymru) 2014.

Y diwrnod penodedig

2.—(1) Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym yw 23 Tachwedd 2016.

(2) Yn Rhan 1 (Rheoleiddio tai rhent preifat)—

(a) adran 4 (gofyniad i landlord fod yn gofrestredig);

(b) adran 5 (eithriadau i'r gofyniad i landlord fod yn gofrestredig) at bob diben sy'n weddill;

(c) adran 6 (gofyniad i landlord fod yn drwyddedig i ymgymryd â gweithgareddau gosod) at bob diben sy'n weddill;

(d) adran 7 (gofyniad i landlord fod yn drwyddedig i ymgymryd â gweithgareddau rheoli eiddo) at bob diben sy'n weddill;

(e) adran 8 (eithriadau i ofynion i landlord fod yn drwyddedig) at bob diben sy'n weddill;

(f) adran 9 (gofyniad i asiantau fod yn drwyddedig i ymgymryd â gwaith gosod);

(g) adran 10 (ystyr gwaith gosod) at bob diben sy'n weddill;

(h) adran 11 (gofyniad i asiantau fod yn drwyddedig i ymgymryd â gwaith rheoli eiddo);

(i) adran 12 (ystyr gwaith rheoli eiddo) at bob diben sy'n weddill;

(j) adran 13 (y drosedd o benodi asiant heb drwydded);

(k) adran 28 (erlyniad gan awdurdod trwyddedu neu awdurdod tai lleol);

(**1**) 2014 dccc 7.

(l) adran 29 (hysbysiadau cosbau penodedig) at bob diben sy'n weddill;

(m) adran 30 (gorchmynion atal rhent);

(n) adran 31 (dirymu gorchmynion atal rhent);

(o) adran 32 (gorchmynion ad-dalu rhent);

(p) adran 33 (gorchmynion ad-dalu rhent: darpariaeth bellach);

(q) adran 34 (pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas ag adrannau 32 a 33) at bob diben sy'n weddill;

(r) adran 35 (troseddau gan gyrff corfforaethol);

(s) adran 40 (cod ymarfer) at bob diben sy'n weddill;

(t) adran 41 (canllawiau) at bob diben sy'n weddill;

(u) adran 42 (cyfarwyddiadau) at bob diben sy'n weddill;

(v) adran 43 (gweithgaredd sy'n groes i'r Rhan hon: effaith ar gytundebau tenantiaeth);

(w) adran 44 (cyfyngiad ar derfynu tenantiaethau); ac

(x) adran 46 (rheoliadau ar ffioedd) at bob diben sy'n weddill.

Dirymu

3. Mae Gorchymyn Deddf Tai (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 7) 2016(**2**) wedi ei ddirymu.

Carl Sargeant
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, un o Weinidogion Cymru

1 Tachwedd 2016

(**2**) O.S. 2016/1009 (Cy. 243) (C. 70).

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Deddf Tai (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 7) 2016 ac yn dwyn i rym y darpariaethau hynny a restrir yn erthygl 2 ar 23 Tachwedd 2016.

Hwn yw'r wythfed gorchymyn cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2(2) yn dwyn i rym y darpariaethau a ganlyn o Ran 1 y Ddeddf: adrannau 4, 9, 11, 13, 28, 30 i 33, 35, 43 a 44 a'r darpariaethau a ganlyn at bob diben sy'n weddill: adrannau 5 i 8, 10, 12, 29, 34, 40 i 42 a 46.

NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym, i'r graddau a nodir isod, drwy orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

Y Ddarpariaeth	*Y Dyddiad Cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adran 1	23 Tachwedd 2015	2015/1826 (Cy. 266)
Adran 2 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 2 (at y dibenion sy'n weddill)	23 Tachwedd 2015	2015/1826 (Cy. 266)
Adran 3 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 3 (at y dibenion sy'n weddill)	23 Tachwedd 2015	2015/1826 (Cy. 266)
Adran 5 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 6 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 7 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 8 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 10 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 12 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 14 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 14 (at y dibenion sy'n weddill)	23 Tachwedd 2015	2015/1826 (Cy. 266)
Adran 15 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 15 (at y dibenion sy'n weddill)	23 Tachwedd 2015	2015/1826 (Cy. 266)

Y Ddarpariaeth	*Y Dyddiad Cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adran 16 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 16 (at y dibenion sy'n weddill)	23 Tachwedd 2015	2015/1826 (Cy. 266)
Adrannau 17 a 18	23 Tachwedd 2015	2015/1826 (Cy. 266)
Adran 19 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 19 (at y dibenion sy'n weddill)	23 Tachwedd 2015	2015/1826 (Cy. 266)
Adran 20 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 20 (at y dibenion sy'n weddill)	23 Tachwedd 2015	2015/1826 (Cy. 266)
Adran 21 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 21 (at y dibenion sy'n weddill)	23 Tachwedd 2015	2015/1826 (Cy. 266)
Adran 22	23 Tachwedd 2015	2015/1826 (Cy. 266)
Adran 23 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 23 (at y dibenion sy'n weddill)	23 Tachwedd 2015	2015/1826 (Cy. 266)
Adrannau 24 i 27	23 Tachwedd 2015	2015/1826 (Cy. 266)
Adran 29 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 34 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adrannau 36 i 39	23 Tachwedd 2015	2015/1826 (Cy. 266)
Adran 40 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 41 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 42 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 45	23 Tachwedd 2015	2015/1826 (Cy. 266)
Adran 46 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adrannau 47 ac 48	23 Tachwedd 2015	2015/1826 (Cy. 266)
Adran 49 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 49 (at y dibenion sy'n weddill)	23 Tachwedd 2015	2015/1826 (Cy. 266)
Adran 50 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 50 (at y dibenion sy'n weddill)	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adrannau 51 i 56	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adran 57 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)

Y Ddarpariaeth	*Y Dyddiad Cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adran 57 (at y dibenion sy'n weddill)	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adran 58	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adran 59 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 59 (at y dibenion sy'n weddill)	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adrannau 60 i 63	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adran 64 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 64 (at y dibenion sy'n weddill)	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adrannau 65 i 71	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adran 72 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 72 (at y dibenion sy'n weddill)	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adran 73	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adran 74	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adran 75(1), (2) a (4)	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adrannau 76 a 77	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adran 78 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 78(2) (yn rhannol)	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adran 78 (at y dibenion sy'n weddill)	1 Gorffennaf 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adran 79	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adran 80 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 80 (at y dibenion sy'n weddill)	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adran 81 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 81 (at y dibenion sy'n weddill)	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adrannau 82 i 85	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adran 86 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 86 (at y dibenion sy'n weddill)	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adrannau 87 i 94	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adran 95 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 95 (at y dibenion sy'n weddill)	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)

Y Ddarpariaeth	*Y Dyddiad Cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adrannau 96 a 97	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adran 98 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 98 (at y dibenion sy'n weddill)	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adran 99 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 99 (at y dibenion sy'n weddill)	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adran 100	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Adrannau 101 a 102	25 Chwefror 2015	2015/380 (Cy. 39)
Adrannau 103 a 104	16 Mawrth 2016	2016/266 (Cy. 99)
Adran 105	25 Chwefror 2015	2015/380 (Cy. 39)
Adran 106 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 106 (at y dibenion sy'n weddill)	25 Chwefror 2015	2015/380 (Cy. 39)
Adrannau 107 i 110	25 Chwefror 2015	2015/380 (Cy. 39)
Adrannau 111 i 128	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 130	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 131(4)(c)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 137	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 139	16 Rhagfyr 2015	2015/2046 (Cy. 310)
Adrannau 140 a 141	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Adran 144	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Atodlen 1	23 Tachwedd 2015	2015/1826 (Cy. 266)
Paragraff 1 o Atodlen 2 (yn rhannol)	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Atodlen 2 (at y dibenion sy'n weddill)	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Rhan 1 o Atodlen 3	27 Ebrill 2015	2015/1272 (Cy. 88)
Rhan 2 o Atodlen 3	25 Chwefror 2015	2015/380 (Cy. 39)
Rhan 3 o Atodlen 3	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)
Rhan 4 o Atodlen 3	16 Rhagfyr 2015	2016/266 (Cy. 99)
Rhan 5 o Atodlen 3	1 Rhagfyr 2014	2014/3127 (Cy. 316)

Gweler hefyd adran 145(1) o'r Ddeddf ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym ar y diwrnod y cafodd y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol ac adran 145(2) ar gyfer y darpariaethau hynny a ddaeth i rym 2 fis ar ôl i'r Ddeddf gael y Cydsyniad Brenhinol.